# SL(5)693 - Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020

## Cefndir a Diben

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "cyfnod perthnasol" fel y cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol. (Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru).

Mae rheoliadau blaenorol wedi estyn y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi ac, yn fwy diweddar, hyd 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf ymhellach, hyd 31 Mawrth 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae Rheoliad 2 yn ymdrin â'r (estyniad i'r) cyfnod perthnasol. Mae'r fersiwn Saesneg yn nodi "with 31st March 2021" tra bo'r fersiwn Gymraeg yn nodi "ar 31 Mawrth" Yn unol â pharagraff 8.4 o ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru dylai'r testun Cymraeg nodi "yn gorffen â 31 Mawrth."

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.